Caergybi ymlaen Holyhead forward

Strategaeth Adfywio Caergybi Ymlaen 2007-2013

Drafft ar gyfer ymgynghori

Paratowyd Medi 2007

TUDALEN CYNNWYS

cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Y Cyfleoedd

3.0 Yr Her

4.0 Y Cynnydd

5.0 Y Weledigaeth / Nodau Strategol

6.0 Themâu a Blaenoriaethau:

Thema 1 Paratoi at Waith
Thema 2 Cymunedau Cryf
Thema 3 Tai ac Anghenion Cymdeithasol
Thema 4 Datblygu Busnesau
Thema 5 Porth Ewropeaidd
Thema 6 Tref Ddeniadol

7.0 Costau a Chyllid

8.0 Partneriaeth a Chyflawni

TUDALEN CYFLWYNIAD

1. cyflwyniad

1.1 Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gweledigaeth a strategaeth gyffredinol ar gyfer adfywio Caergybi, er mwyn delio'n hyderus â'r sialensau a'r cyfleoedd a wyneba'r dref dros y cyfnod hyd at 2013. Mae'n cynnig fframwaith cyfannol i greu gwell Caergybi a llunio ymateb cydlynol i anghenion y dref a'i phobl.

1.2 Ceisia'r strategaeth adeiladu ar gryfderau'r dref – ei phobl, ei hanes, ei hamgylchedd a'i busnesau, er mwyn cynyddu cyfoeth a denu swyddi cynaliadwy i dref a ddioddefodd ddiweithdra ac amddifadedd gyda'r gwaethaf yng Nghymru. Mae'n cydnabod y gweithredu sylweddol ac eang, yr ymgyrchu a'r buddsoddi sydd eisoes wedi digwydd, ac sydd ar y gweill yn y dref. Mae'n cydnabod hefyd yr angen i sicrhau perchnogaeth ac ymglymiad y gymuned wrth geisio atebion credadwy, realistig a hyblyg i broblemau Caergybi.

1.3 Diweddariad a geir yma o ddogfen a gyhoeddwyd gyntaf yn 2003 ar ôl ymgynghori mewn amrywiol ffyrdd â budd-ddeiliaid a gwahanol gymunedau a busnesau tref Caergybi. Ymgynghorwyd yn helaeth â'r cyhoedd ynglŷn â strategaeth

2003 a'r cynlluniau cysylltiedig. Trefnwyd arddangosfa a fynychwyd gan 2,000 o bobl a derbyniwyd 80 o ymatebion ysgrifenedig. Dangosodd yr ymateb fod pobl Caergybi yn awyddus iawn i weld rhaglen adfywio eang a phellgyrhaeddol yn eu tref.

1.4 Ers 2003 bu cynnydd arwyddocaol mewn gweithgareddau adfywio a datblygu yng Nghaergybi a derbynnir yn gyffredinol fod pethau'n gwella yn y dref. Mae'n hanfodol parhau gyda'r momentwm hwn a gwireddu'r weledigaeth ddeg mlynedd.

1.5 Mae adfywio Caergybi yn bwysig i Gymru gyfan. Byddai'n cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni amcanion Cynllun Gofodol Cymru a Rhaglen Gydgyfeiriant yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007-2013. Mae'r strategaeth yn bwysig ac allweddol iawn yng nghyswllt Cynllun "Môn a Menai" a dyfodol Yr Wylfa ac Alwminiwm Môn. Mae perthynas hefyd â Chynllun Gweithredu'r Arfordir.

1.6 Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn gofyn am lawer o adnoddau dynol a chyllid, ac ymrwymiad ar bob lefel. Bydd angen llawer o fuddsoddiad cyhoeddus i gyflawni'r lefel angenrheidiol o newid, i ddenu buddsoddiad arian preifat sylweddol ac i wireddu'r potensial creu swyddi sy'n amlwg yn bodoli.

1.7 Nodwyd strategaeth Caergybi Ymlaen fel enghraifft o arfer dda yn arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o adfywio yng Nghymru.

1.8 Cymeradwywyd y fersiwn hon o'r strategaeth gan Fwrdd Caergybi Ymlaen ym mis Gorffennaf fel dogfen ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill. Caiff dogfen ddiwygiedig, yn adlewyrchu'r sylwadau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad, ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd i'w chymeradwyo.

TUDALEN Y CYFLEOEDD

2.0 y cyfleoedd

Mae Caergybi yn dref ag iddi bosibiliadau aruthrol:-

2.1 Dyma'r dref fwyaf ar Ynys Môn, gyda phoblogaeth o tua 12,000 a nifer o gyflogwyr mawr. Mae pwysigrwydd strategol y dref yn gwneud adfywio Caergybi o bwysigrwydd allweddol i hybu twf economaidd Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru yn gyffredinol.

2.2 Dyma'r porthladd fferi pwysicaf i deithwyr rhwng y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon; mae oddeutu 2.4 miliwn o deithwyr yn defnyddio'r porthladd bob blwyddyn. Bu cynnydd arwyddocaol mewn cludiant nwyddau drwy'r porthladd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2.3 Mae'n bwynt cludiant strategol, a gysylltir â gweddill y Deyrnas Gyfunol gan yr A55 (Ewroffordd 22) a phrif reilffordd Caergybi - Llundain.

2.5 Mae'n lleoliad buddsoddi strategol. Gyda safle cyflogaeth mawr newydd yn cael ei greu ym Mharc Cybi, mae'r dref mewn sefyllfa dda i ddenu busnesau newydd.

2.7 Dyma'r porthladd prysuraf yng Nghymru ar gyfer llongau mordaith. Gallai ddenu llawer mwy o longau mordaith pe gellid darparu cyfleusterau docio uniongyrchol addas.

2.6 Mae gan y dref botensial aruthrol i ddatblygu twristiaeth gan ei bod wedi lleoli mewn ardal naturiol hardd dros ben lle mae traethau godidog a hanes Celtaidd cyfoethog.

2.4 Mae'r harbwr yn lle mawr cysgodol gyda mynediad 24 awr, waeth be fo'r llanw. O ganlyniad mae posibiliadau mawr ar gyfer datblygu'r sector morol.

2.8 Mae ardal drefol eang annatblygedig glan y dŵr yn cynnig posibiliadau arwyddocaol ar gyfer creu cyfleoedd newydd yn y dref.

2.9 Mae potensial mawr ar gyfer datblygu'r dref fel lleoliad gweithgareddau hamdden dan do ac awyr agored, a darparu adnoddau cynadledda a gwestai.

2.10 Mae gan y dref amrywiaeth dda o grwpiau a mudiadau cymunedol brwd, yn cynnwys partneriaethau gweithredol Cymunedau'n Gyntaf. Cynigiant sylfaen gadarn ar gyfer adfywio o'r gwaelod i fyny.

2.11 Mae yma nifer o ganolfannau celf, diwylliant a pherfformio, ynghyd â gweithgareddau a thalentau y gellid eu datblygu a'u gwella fwy fyth.

2.12 O'r diwedd, mae'r dref wedi goresgyn problemau a gafwyd dros nifer o flynyddoedd, sef diffyg ffyrdd da, tir datblygu i greu gwaith a chyfleusterau gwaredu carthion. Erbyn hyn, mae posibiliadau gwych ar gyfer datblygu.

TUDALEN YR HER

3.0 **yr her**

3.1 Mae Caergybi yn baradocs – er gwaethaf pwysigrwydd a photensial strategol y dref, dioddefodd lefelau uwch na'r cyffredin o broblemau cymdeithasol, economaidd, trefol ac amgylcheddol. Gwelir yr un math o broblemau mewn rhai trefi porthladd / glan môr / diwydiannol eraill ar gyrion y Deyrnas Gyfunol.

3.2 Mae modd dangos maint yr her o adfywio Caergybi drwy ddefnyddio dangosyddion marchnad lafur ac economaidd-gymdeithasol, mesuriadau ffyniant cyffredinol, diwyg y dref a'r amgylchedd ffisegol, ynghyd â hyder cyffredinol busnesau a thrigolion y dref. Dyma'r nodweddion allweddol:-

- Un o'r graddfeydd diweithdra uchaf yng Nghymru
- Pobl o oedran gwaith yn gadael y dref – oddeutu hanner colled y sir gyfan

- Lefelau cymwysterau addysg yn is na'r cyfartaledd
- Y cyfartaledd incwm teulu isaf yn Ynys Môn
- Lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol gyda phedair ward yn gymwys i dderbyn statws Cymunedau'n Gyntaf, ac eraill yn bur agos at gymhwyso
- Perchnogaeth ceir yn isel – bron i 50% o'r cartrefi heb gar
- 28% o blant y dref yn byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn ennill cyflog
- Mwy na'r cyfartaledd o ddiweithdra, camddefnydd cyffuriau ac alcohol, pobl ifanc wedi dadrithio, fandaliaeth a mân droseddau
- Dim ond cyfran fach iawn o'r 2 filiwn a mwy o bobl sy'n defnyddio'r porthladd yn ymweld â chanol y dref
- Nifer o gyfleusterau addysg / cymunedol / hamdden yn hen neu yn heneiddio
- Canol y dref yn tanberfformio gyda llawer o adeiladau gwag.

3.3 Pan gyfunir y ffigyrau ar gyfer y rhai sy'n hawlio cymhorthdal incwm a budd-daliadau, daw'n amlwg bod bron i 3,000 o bobl y dref yn derbyn cymorth gan y Wladwriaeth, a heb fod yn cyfrannu'n llawn at ffyniant economaidd lleol. Mae hyn yn gosod baich trwm ar yr economi leol a chenedlaethol.

3.4 Mae'r naill broblem yn tueddu i waethygu'r llall a chreu amddifadedd lluosog lle mae amrywiol ffactorau negyddol yn atgyfnerthu ei gilydd. Mae angen gweithredu mewn ffordd strategol, wedi ei dargedu'n dda i dorri'r cylch amddifadedd. Rhaid manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i adfywio'r dref a gwyrdroi'r sefyllfa bresennol. Dyma hanfod strategaeth Caergybi Ymlaen.

3.5 Mae ateb gofynion y gymuned yn sylfaenol bwysig. Os yw tref Caergybi i symud ymlaen, rhaid iddi wneud hynny gyda gweledigaeth a gefnogir yn llawn gan ei phobl.

TUDALEN Y CYNNYDD

4.0 **y cynnydd**

4.1 Ers lansio gweledigaeth a strategaeth Caergybi Ymlaen yn 2003 gwelir yn glir y bu cynnydd sylweddol mewn gwaith adfywio a datblygu yn cyffwrdd â sawl agwedd ar fywyd y dref. Bu gwelliannau pwysig, ond mae'r angen yn parhau i wneud llawer o bethau eraill.

4.2 Digwyddodd y datblygiadau sylweddol a ganlyn:-

- Cynllun carthffosiaeth £35M wedi ei adeiladu a'i gomisiynu
- Parc Masnach Penrhos wedi ehangu'n sylweddol
- Unedau busnes a phlotiau newydd parod ym Mhenrhos
- Pont y Porth Celtaidd / lle gadael bagiau / caffi newydd Pumpkin
- Gwelliannau yng nghanol y dref
- Adnewyddu Neuadd y Dref a swyddfeydd newydd
- Ehangu'r Amgueddfa Forol a bistro newydd

- Datblygiad Marina mawr newydd a chynyddu nifer yr angorfeydd
- Canolfan Ieuenctid a Chymunedol newydd Ffordd Llundain
- Cyfleusterau gofal plant newydd yng Ngwelfor a Santes Fair
- Motel newydd yng Nghyfforddd 1 yr A55 - Kingsland
- Cychwyn safle newydd mawr ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg ym Mharc Cybi

Datblygiad arwyddocaol iawn ers 2003 fu creu a datblygu partneriaethau gweithredol Cymunedau'n Gyntaf mewn pum allan o saith ward y dref. Bu datblygiadau o bwys hefyd mewn perthynas â Chyngor Tref Caergybi a gwelliant gweladwy yng ngwaith plismona cymunedol yr heddlu. Yn gyffredinol, gwelwyd rhagor o weithio mewn partneriaeth.

4.4 Wrth fesur a yw Caergybi'n gwella neu beidio, un maen prawf allweddol yw delwedd y dref yng ngolwg ei thrigolion ac eraill, delwedd a fu'n negyddol iawn yn y gorffennol. Y duedd dros y tair blynedd ddiwethaf yw i bobl deimlo'n well ynghylch Caergybi a'i dyfodol. Dangosodd y datblygiadau ym Mhenrhos, y gwesty yn Kingsland, a'r Marina fod mwy o hyder yn y dref gan fuddsoddwyr sector breifat erbyn hyn.

4.5 Nodwyd y canlynol fel materion allweddol a fydd angen mwy o ffocws a gweithredu yng Nghaergybi yn y dyfodol :-

- Addysg, sgiliau a hyfforddiant
- Tai, iechyd a lles
- Potensial datblygiadau glan y dŵr
- Diogelu dyfodol prif gyflogwyr

Cafodd y strategaeth hon ei diwygio i roi rhagor o sylw i'r blaenoriaethau pwysig yma.

TUDALEN Y WELEDIGAETH

5.0 **y weledigaeth**

5.1 Mae angen i Gaergybi ailddyfeisio ei hun a gwneud y mwyaf o'i photensial fel ased o bwys i Ynys Môn a thu hwnt. Mae pawb yn cydnabod ei safle strategol fel porth rhyngwladol i Iwerddon, ond mae'r dref angen mwy na hyn i fanteisio'n llawn ar ei swyddogaeth fel un o brif adnoddau Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru.

5.2 Mae buddsoddi yng Nghaergybi a'i thrigolion yn fuddsoddiad yn ffyniant economaidd Gogledd Orllewin Cymru gyfan yn y dyfodol. Wrth roi sylw i broblemau Caergybi bydd yr effaith yn cael ei luosi ar draws economi Ynys Môn a'r rhanbarth cyfan, ac yn mynd i'r afael â phroblem economaidd a fu'n ein poeni ers cyfnod maith.

5.3 Ni ellir datrys problemau dyrys Caergybi dros nos. Mae angen cydgordio'r ymdrechion presennol yn well a'u gosod mewn fframwaith cynhwysfawr sy'n cynnig

dilyniant a sefydlogrwydd dros gyfnod hir. Mae'r strategaeth angen ymrwymiad gan y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol i sicrhau ei llwyddiant.

5.4 **Y Weledigaeth** – Gwelir Caergybi Ymlaen fel fframwaith 10 mlynedd ar gyfer adfywio Caergybi. Mae'n canolbwyntio ar y dref yn ei chyfanrwydd ac yn ailddatgan pwysigrwydd galluogi Caergybi i elwa ar ei manteision niferus :-

"Creu canolfan ryngwladol lwyddiannus sy'n elwa ar ei photensial a'i lleoliad strategol".

5.5 Bydd y **Nodau Strategol** a ganlyn yn sylfaen i'r weledigaeth ac yn arwain y gweithgareddau cysylltiedig:-

- **Datblygu'r economi, gan greu cyfoeth a rhagolygon swyddi newydd i bobl Caergybi**
- **Lleihau amddifadedd cymdeithasol a sefydlu cymunedau cynhwysol, diogel ac iach yng Nghaergybi**
- **Sicrhau fod Caergybi yn 'dref sy'n dysgu' – yn cynnig cyfleusterau dysgu, hamdden a diwylliannol o safon uchel**
- **Atgyfnerthu cysylltiadau trafnidiaeth a diwylliannol Caergybi ag Iwerddon a phwysigrwydd y dref fel porth trafnidiaeth rhyngwladol**
- **Ailsefydlu Caergybi fel tref ag amgylchedd o safon uchel a diogel**
- **Manteisio ar botensial ardaloedd glan y dŵr, yr harbwr a lleoliad Caergybi.**

TUDALEN THEMÂU A BLAENORIAETHAU

6.0 themâu a blaenoriaethau

6.1 Un elfen sy'n gyffredin i bob agwedd ar ddatblygiad y Weledigaeth yw'r angen i dref Caergybi gael ei hunaniaeth ei hun - yr ymdeimlad o berthyn i le - yn ogystal â'i swyddogaeth draddodiadol fel porthladd pwysig.

6.2 Mae'r strategaeth yn cynnwys 6 thema cydgysylltiedig:

- **Thema 1 - Paratoi at Waith**
- **Thema 2 - Cymunedau Cryf**
- **Thema 3 - Tai ac Anghenion Cymdeithasol**
- **Thema 4 - Datblygu Busnesau**
- **Thema 5 - Porth Ewropeaidd**

l Thema 6 - Tref Ddeniadol

6.3 Newidiwyd y themâu a'r meysydd cysylltiedig ers strategaeth 2003 er mwyn adlewyrchu sefyllfa gyfredol 2007. Bellach mae Tai yn thema benodol gan fod yr agwedd hon mor bwysig. Cyplyswyd hamdden yn awr gyda thwristiaeth. O dan bob thema nodir yn gryno'r datblygiadau diweddar a'r Blaenoriaethau Gweithredu dros y cyfnod hyd at 2013.

6.4 **Alwminiwm Môn**
Mae peth ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch dyfodol cyflogwr preifat unigol mwyaf Caergybi ac fe allai'r ffatri gau yn ystod cyfnod y strategaeth. Mae Alwminiwm Môn yn cyflogi 600 o bobl, y mwyafrif ar gyflogau uwch na'r cyfartaledd o fewn yr economi leol. Byddai penderfyniad i gau Alwminiwm Môn yn amlwg yn cael effaith negyddol ddramatig ar economi'r dref, fel yr amlygwyd yn adroddiad Tribal. Oherwydd y posibilrwydd hwn mae'n hanfodol gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus, a pharatoi cynllun ymateb lleol i ddelio ag unrhyw benderfyniad i gau'r ffatri pe bai hynny'n digwydd. Bydd angen gwneud hyn yng nghyd-destun Cynllun Môn a Menai.

6.5 Mae rhai ystyriaethau yn pontio pob thema, yn cynnwys yr angen am Economi Gynaliadwy, Amgylchedd Cynaliadwy a Mynediad a Chyfle Cyfartal.

6.6 Mesurir dylanwad y strategaeth drwy gynnal Asesiad Effaith gan holi barn y budd-ddeiliaid perthnasol.

Thema 1 : Paratoi at Waith

Amcan: Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel i bobl Caergybi a'r cylch, a chreu gweithlu actif, medrus a chymwys.

Rhesymeg - Bydd datblygu Caergybi fel "tref sy'n dysgu" yn helpu pobl y dref, yn arbennig pobl ddi-waith, anactif ac wedi dadrithio, i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i wireddu eu potensial, a chynnig gweithlu parod, medrus a chymwys i fusnesau. Bydd hon yn thema bwysig iawn yn natblygiad y dref yn y dyfodol. Mae hefyd yn thema allweddol yng nghynlluniau Cydgyfeiriant *(Convergence)* yr Undeb Ewropeaidd.

Cynnydd ers 2003 - Ymhlith y datblygiadau a chamau allweddol dan y thema hon y mae creu/ehangu sawl rhaglen gyflogaeth/hyfforddiant a thwf mewn cyfleoedd addysg a hyfforddiant cymunedol. Yn strategaeth 2003, roedd y syniad o greu Canolfan Dysgu Gydol Oes yng Nghaergybi yn cael ei ystyried yn bwysig dros ben

ond ni wnaed cynnydd am sawl rheswm, yn cynnwys diffyg arian. Ni symudwyd ymlaen gyda'r syniad o ddatblygu "prifysgol" Geltaidd.

Noda'r strategaeth ddiwygiedig yr angen i ganolbwyntio ar ofynion addysg a chyflogaeth mwy cyfredol a sylfaenol, ac ar y problemau a wyneba'r dref. Ceisia sicrhau fod pobl Caergybi yn medru manteisio ar swyddi newydd a grëir yn lleol, er enghraifft yn y parc siopau a datblygiad newydd Parc Cybi.

Mae gan Ysgol Uwchradd Caergybi ran allweddol i'w chwarae yn y gwaith o greu dyfodol ffyniannus i'r dref. Rhaid i'r ysgol gael cyfleusterau modern o ansawdd uchel sy'n cwrdd â gofynion ei myfyrwyr. Fel ag mewn llawer o drefi eraill Cymru, mae yma nifer arwyddocaol o lefydd gweigion ac mae rhesymoli'n anochel er mwyn canolbwyntio adnoddau ar anghenion addysgol. Mae presenoldeb Coleg Menai yng Nghaergybi hefyd yn bwysig iawn i'r dref, gan weithredu fel ffocws ar gyfer addysg bellach, addysg gymunedol ac addysg oedolion. Nodwyd angen arbennig am gyfleusterau ar gyfer addysg a hyfforddiant ymarferol / technegol.

Mae nifer sylweddol o sefydliadau yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yng Nghaergybi ac mae'n allweddol bwysig fod yr asiantaethau hyn yn cydweithio'n effeithiol i gydlynu eu gwaith, osgoi dyblygu posibl, a chanolbwyntio ar anghenion eu cleientiaid.

BLAENORIAETHAU:

L1 Lleihau anactifedd economaidd a lefelau diweithdra
L2 Cynyddu lefelau cymhwyster, sy'n gyffredinol isel yn y dref
L3 Gwella cyfleusterau addysg yr Ysgol Uwchradd
L4 Cwrdd ag anghenion hyfforddiant a chyflogaeth pob person ifanc
L5 Sicrhau mai pobl leol sy'n llenwi cymaint â phosibl o'r swyddi newydd a grëir gan brosiectau creu gwaith yn yr ardal
L6 Datblygu ymhellach botensial yr ardal ar gyfer gweithgareddau hyfforddiant arbenigol (e.e. diwydiannau môr/ diogelwch/ gwarchodaeth/ chwaraeon dŵr)

Thema 2 : Cymunedau Cryf

Amcan: Sicrhau cymuned leol gref, weithgar a hunan-hyderus sydd â rhan weithredol yn adferiad y dref ac sy'n datblygu atebion lleol i gwrdd ag anghenion lleol.

Rhesymeg – Rhaid cael ffocws ac ymwneud cymunedol cryf yn y broses o weithredu'r rhaglen adfywio os am gyflawni gwelliannau tymor hir. Mae'r rhan fwyaf o'r dref yn cael budd o gymorth rhaglen Cymunedau'n Gyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dyma fydd prif ganolbwynt y gweithgaredd dan y thema hon. Mae asiantaethau allweddol eraill yn ymwneud â gwella bywyd y gymuned leol a rhaid cydnabod eu gwaith a'i ymgorffori yn y strategaeth.

Cynnydd ers 2003 - Mae'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf sy'n weithredol mewn pum ward yng Nghaergybi wedi arwain at amrywiaeth eang o weithgareddau a phrosiectau

datblygu cymunedol. Bellach y mae tair Partneriaeth Gymunedol brysur yn cyflogi tua 30 aelod o staff. Ymhlith y prosiectau arwyddocaol y mae mannau chwarae newydd i blant, crèche cymunedol, cynlluniau cydweithredol bwyta'n iach, clybiau cinio, arddangosfeydd blodau yng nghanol y dref, amrywiol ymgyrchoedd cefnogi teuluoedd a chanolfan ieuenctid a chymunedol newydd yn Ffordd Llundain. Mae'r cynnydd dan y thema hon hefyd yn cynnwys adnewyddu Neuadd y Dref a gwelliant sylweddol mewn plismona cymunedol gan yr heddlu.

Mae cydlynu gweithgareddau yn bwysig ac mae'r tair partneriaeth gymunedol yn awr yn cydweithredu yn achos sawl prosiect tref gyfan. Er yr ymddengys y bydd y cynllun Cymunedau'n Gyntaf yn para tan 2013, mae angen datblygu ffynonellau cyllid / incwm eraill ar gyfer y tair partneriaeth. Arweiniodd gwaith Cymunedau'n Gyntaf at rai manteision mewn wardiau cyfagos (rhai ohonynt hwythau yn agos iawn i fod yn gymwys i dderbyn arian Cymunedau'n Gyntaf). Serch hynny, mae'n amlwg fod eisiau rhoi sylw hefyd i anghenion cymunedol yn y wardiau nad ydynt yn derbyn y cymorth hwn.

Mae nifer o gynigion ar gyfer ariannu canolfannau cymunedol newydd neu ganolfannau gwell. Rhaid sicrhau fod y buddsoddiad cyhoeddus ynddynt yn effeithiol, yn adlewyrchu gwir angen ac yn gynaliadwy.

BLAENORIAETHAU:

C1 Gweithredu'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf
C2 Cefnogi ardaloedd anghenus tu allan i ardaloedd C1
C3 Darparu cyfleusterau cymunedol modern sy'n adlewyrchu anghenion y dref
C4 Annog mentrau cymunedol a chymdeithasol
C5 Cefnogi teuluoedd
C6 Prosiectau sy'n cefnogi anghenion pobl ifanc
C7 Mesurau lleihau tlodi
C8 Lleihau torcyfraith ac annhrefn ymhellach
C9 Sicrhau fod cyfleusterau a phartneriaethau cymunedol yn gynaliadwy

Thema 3 : Tai ac Anghenion Cymdeithasol

Amcan : Defnyddio gweithgareddau Tai fel ffordd allweddol o adfywio'r dref a delio ag anghenion tai, iechyd a chymdeithasol yr ardal.

Rhesymeg – Mae gan weithgareddau tai ran allweddol a chanolog mewn adfywio a gwella ansawdd bywyd a lles. Derbynnir fod anghenion tai yn nhref Caergybi. Mae yma lawer o dai teras hŷn a thai sector cyhoeddus sy'n dyddio o gyfnod cynnar adeiladu tai cymdeithasol. O ganlyniad, mae angen llawer iawn o fuddsoddi i'w gwella fel eu bod yn cwrdd â safonau modern. Mae'r adenillion economaidd a geir o adeiladu tai newydd neu adnewyddu tai yn golygu y gellir ei ddefnyddio i wella adeiladau neu ardaloedd perthnasol, yn ogystal â chwrdd ag anghenion tai. Yn aml, mae cysylltiad rhwng anghenion tai ag anghenion iechyd a chymdeithasol ac felly cânt eu cyplysu dan y thema hon.

Cynnydd ers 2003 - Bu mwy o weithgarwch a diddordeb sector preifat mewn adeiladu tai newydd yng Nghaergybi. Codwyd fflatiau newydd yn ardal glan dŵr y

Marina ac mae cynlluniau ar gyfer datblygiadau tai arwyddocaol ar Ffordd Ynys Lawd, Kingsland, ar Ffordd Turkeyshore, ardal Soldier's Point a mannau eraill. Bu nifer o ddatblygiadau a chynlluniau gwella tai sector cyhoeddus yng Nghaergybi, yn cynnwys gwelliannau gwerth £4M ym Morawelon. Gweithredwyd nifer o gynlluniau tai, iechyd a chefnogaeth gymdeithasol eraill yn ogystal.

Ychydig iawn o dai newydd a godwyd yng Nghaergybi dros y degawdau diwethaf, oherwydd yr amgylchiadau economaidd lleol a llyffetheiriau eraill. Cyfrannodd hyn at ostyngiad bychan ym mhoblogaeth y dref dros yr un cyfnod. Fel canolfan dwf ddynodedig, disgwylir y caiff nifer arwyddocaol o dai newydd eu codi yn y dyfodol, gyda lefel a lleoliad yr adeiladu yn cael ei reoli gan y Cynllun Datblygu Lleol. Mae diddordeb y sector preifat yn amlwg yn cynyddu gyda diddordeb arbennig mewn ardaloedd glan y dŵr.

Arweiniodd Deddf Ardal Adnewyddu Tai 1991-2001 at welliannau tai gwerth oddeutu £10M. Fodd bynnag, ni chafodd nifer o derasau / tai unigol eu gwella ar y pryd. Mae trafodaethau gyda Chynulliad Cymru yn awgrymu potensial ar gyfer dynodi ardaloedd o'r newydd i ddelio â'r tai na chafodd eu gwella, ac integreiddio â gwaith adfywio arall.

Mae digartrefedd yn broblem a ddaeth yn fwyfwy amlwg yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gwaith cefnogi arwyddocaol eisoes yn digwydd a nodwyd yr angen i ddarparu cyfleusterau addas ar gyfer y digartref.

BLAENORIAETHAU:

H1 Gwella cyflwr tai is-safonol
H2 Delio ag anghenion y digartref a materion cysylltiedig
H3 Annog buddsoddi mewn eiddo addas gwag / eiddo mewn cyflwr gwael
H4 Ceisio rhaglen arall Ardal Adnewyddu Tai
H5 Darparu ar gyfer codi tai newydd mewn mannau addas
H6 Integreiddio gweithgaredd Tai gyda gweithgareddau adfywio eraill
H7 Lleihau problemau iechyd a chymdeithasol y dref

Thema 4 : Datblygu Busnesau

Amcan: Annog hyder a buddsoddiad sector preifat, a chefnogi anghenion penodol busnesau Caergybi.

Rhesymeg – Mae meithrin hyder, denu buddsoddiad a chreu gwaith sector preifat yn allweddol i greu cyfoeth a lles economaidd. Dim ond drwy sicrhau buddsoddiad sector preifat y caiff llawer o sialensau adfywio'r dref eu datrys. Un her allweddol o fewn y strategaeth yw gwneud Caergybi yn dref y dymuna'r sector preifat fuddsoddi ynddi, gan sicrhau'r manteision lleol mwyaf posibl ohono.

Cynnydd ers 2003 - Bu datblygiadau sylweddol sector preifat, yn cynnwys datblygiad y marina, ehangu sylweddol ar ardal siopa Penrhos, datblygiadau newydd bwyd cyflym/adwerthu/gwesty yn Kingsland, a buddsoddiadau newydd yn Iard Gychod Caergybi a Gwesty Bae Trearddur. Gweithredwyd prosiectau isadeiledd *(infrastructure)* allweddol a fydd yn galluogi busnesau i fuddsoddi ac ehangu yn y

dyfodol, sef system garthffosiaeth newydd ar gyfer y dref a'r pentrefi cyfagos, unedau a phlotiau newydd ym Mharc Busnes Penrhos. Mae'r gwaith o greu safle mawr newydd Parc Cybi hefyd bellach yn mynd yn ei flaen yn dda. Bu Siambr Fasnach Caergybi yn weithredol ers 2003.

Am nifer fawr o flynyddoedd cyfyngwyd yn arw ar fuddsoddiad busnes/diwydiannol sector preifat yng Nghaergybi gan ddiffyg safleoedd datblygu ac eiddo addas. Bydd isadeiledd y safleoedd newydd ynghyd â'r unedau parod ychwanegol a ddarparwyd, rhai gyda'u gwasanaethau wedi eu gwella, o'r diwedd yn galluogi buddsoddiad o'r fath gan arwain at swyddi newydd ychwanegol i'r ardal. Bydd y rhain o gymorth mawr i gynyddu'r lefelau gwariant lleol.

Mae canol y dref yn ffocws i fywyd Caergybi a gwelir ei gyflwr fel arwydd o iechyd economaidd y dref gyfan. Hefyd mae llawer iawn o bobl yn cael gwaith a chyflog yng nghanol y dref. Mae angen targedu eiddo gwag a hyll a denu mathau newydd o fusnesau a defnydd i'r ardal hon. I lwyddo, rhaid rheoli canol y dref mewn ffordd ragweithiol a chefnogol.

Mae economi Caergybi wastad wedi bod â chysylltiad agos â'r môr ac fe nodir y sector morol fel un ag iddo botensial cryf iawn i dyfu yn y dyfodol. Mae lle ar gael ar gyfer datblygiad marina sylweddol a dylid darparu hefyd ar gyfer rhagor o fusnesau morol a gweithgaredd diwydiannol.

BLAENORIAETHAU:

B1 Salfe cyflogaeth mawr newydd ym Mharc Cybi
B2 Darparu unedau busnes newydd ymlaen llaw
B3 Ehangu'r Marina a'r sector morol
B4 Rheoli canol y dref a chynnal gweithgareddau cefnogol
B5 Sicrhau mwy o ddefnydd o gynlluniau cefnogi busnes
B6 Denu buddsoddiad a chreu gwaith
B7 Y sector preifat yn cyfrannu at y gwaith adfywio

Thema 5 : Porth Ewropeaidd

Amcan: Manteisio i'r eithaf ar botensial economaidd y porthladd a statws y dref fel porth rhyngwladol.

Rhesymeg - Caergybi yw'r porthladd llongau teithwyr prysuraf ar ochr orllewinol Prydain. Mae hefyd yn llwybr cynyddol bwysig ar gyfer cludo nwyddau ar y ffyrdd a'r rheilffyrdd. Mae'r porthladd yn brif gyflogwr lleol ac mae'r harbwr helaeth yn ased economaidd pwysig i'r dref a'r rhanbarth cyfan. Nod y strategaeth yw diogelu a chynyddu'r amrywiaeth o swyddi yn y porthladd, a manteisio i'r eithaf ar ei gyfraniad economaidd i'r dref a'r economi leol.

Cynnydd ers 2003 - Gwelwyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn datblygu glanfa fferi newydd rhif 5 ar Ynys Halen, cyflwyno fferi fawr newydd a chreu pont gerdded y Porth Celtaidd yn cysylltu glanfa'r fferi teithwyr, yr orsaf reilffordd a

chanol y dref. Mae canolfan alwadau newydd Stena UK yng Nghaergybi wedi creu tua 60 o swyddi.

Fel awdurdod y porthladd a pherchennog tir pwysig yn lleol, bydd gan Stena ran allweddol yn adfywiad y dref. Mae'n hanfodol bwysig eu bod yn parhau i ymwneud â'r strategaeth os ydyw i lwyddo. Nodwyd yr angen i ddatblygu angorfa ar gyfer llongau mordaith fel cyfle euraidd i gynyddu amrywiaeth o fewn y porthladd a datblygu twristiaeth leol.

Yn amlwg, mae'r rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu Cyffordd 1 yr A55 â'r porthladd ymhell o fod yn foddhaol gan fod problemau traffig sylweddol yn ardal Y Bont Ddu ar ôl i'r llongau fferi gyrraedd. Mae darparu system ffyrdd fodern i gysylltu'r A55, y porthladd a'r dref yn effeithiol yn hanfodol i ddyfodol Caergybi. Byddai hyn yn gyfle hefyd i wella'r drefn sâl a dryslyd bresennol i draffig sy'n teithio i gyfeiriad canol y dref. Mae angen adnewyddu / ailddatblygu sylweddol yn ardal gorsaf y rheilffordd a gellir gwneud defnydd llawer gwell o ardal yr hen draciau rheilffordd yn Noc y Gorllewin.

Mae'r Morglawdd mawr hanesyddol yn adeiladwaith morol sy'n allweddol i ddyfodol yr harbwr a'r gwahanol ddefnydd a wneir ohono. Mae angen buddsoddiad sylweddol iawn i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu fel amddiffyniad effeithiol i'r dref rhag y môr. Byddai hyn hefyd yn gyfle i ddatblygu ei botensial ar gyfer sawl math o ddefnydd, yn cynnwys hamdden.

BLAENORIAETHAU:

E1 Gwella'r rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu'r A55, y dref a'r porthladd
E2 Creu angorfa newydd ar gyfer llongau mordaith a llongau mawr eraill
E3 Ailddatblygu ardal yr orsaf reilffordd / yr harbwr mewnol
E4 Gwella a rhesymoli'r cyfleusterau gwasanaethu trenau
E5 Diogelu a gwella'r Morglawdd fel amddiffyniad allweddol rhag y môr
E6 Gwella, ymestyn a rhesymoli isadeiledd y porthladd
E7 Cefnogi cyfleoedd gwaith seiliedig ar y porthladd, yr harbwr a thrafnidiaeth.

Thema 6 : Tref Ddeniadol

Amcan: Gwella diwyg ac amgylchedd y dref a hyrwyddo Caergybi ac Ynys Cybi fel cyrchfan ansawdd uchel ar gyfer Twristiaeth a Hamdden.

Rhesymeg - Yng Nghaergybi ac Ynys Cybi mae cyfoeth o adnoddau naturiol, treftadaeth ac atyniadau eraill a apelia i amrywiaeth mawr o bobl. Fodd bynnag, caiff y dref ei hadnabod yn gyffredinol fel man i basio trwodd yn hytrach na chyrchfan ynddi ei hun. Mae hefyd wedi dioddef oddi wrth rai delweddau negyddol. Rhaid gwella ansawdd yr amgylchedd yn gyffredinol a'r cyfleusterau a gynigir yn lleol os yw tref Caergybi i gyrraedd ei photensial fel cyrchfan boblogaidd ar gyfer twristiaeth a hamdden.

Cynnydd ers 2003 - Gweithredwyd amrywiol brosiectau amgylchedd a thwristiaeth, yn cynnwys addurno canol y dref â blodau, arwyddion newydd, ymestyn Amgueddfa'r Môr, digwyddiadau croesawu llongau mordaith, gwasanaeth newydd

trên tir, lle newydd i storio bagiau, a digwyddiadau haf newydd/gwell. Mae gwelliannau trefol mawr yn digwydd yn Ffordd Fictoria a gwesty newydd yn cael ei godi yn Kingsland. Cafodd nifer o adeiladau canol y dref eu gwella. Felly hefyd nifer o gyfleusterau chwaraeon.

Mae gwella diwyg cyffredinol y dref yn cael ei ystyried fel mater o flaenoriaeth. Yng nghanol y dref erys nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael a hyll. Bydd ymgyrch arfaethedig y Cynllun Trefwedd Treftadaeth yn allweddol i ddatrys y broblem hon. Bydd sicrhau isadeiledd trefol o ansawdd uchel a delwedd groesawgar nid yn unig yn gwella'r amgylchedd i bobl leol ond hefyd yn denu pobl i'r dref gan roi hwb i fusnesau lleol a'r diwydiant ymwelwyr.

Mae datblygu atyniadau twristaidd o ansawdd uchel yn hanfodol os yw'r dref i fanteisio ar botensial ymwelwyr. Mae treftadaeth yr ardal ac amgylchedd deniadol yr arfordir yn asedau allweddol yn y cyswllt hwn ac mae angen eu gwella, eu hehangu a'u marchnata'n well. Enghreifftiau o atyniadau o'r fath yw'r Gaer Rufeinig, Ynys Lawd a Pharc Gwledig y Morglawdd.

Awgrymwyd y posibilrwydd o gau'r Ganolfan Hamdden bresennol hen a darparu dau gyfleuster newydd yn ei lle, sef neuadd chwaraeon newydd ger yr Ysgol Uwchradd ac atyniad dŵr yn cynnwys nofio, ffitrwydd a hamdden dŵr. Mae gan gyfleusterau o'r fath swyddogaeth bwysig o ran twristiaeth yn ogystal â chwaraeon, megis denu Gemau'r Ynysoedd.

BLAENORIAETHAU:

A1 Gwella amgylchedd canol y dref a diwyg y dref yn gyffredinol
A2 Gwella a datblygu potensial Traeth Newry fel atyniad
A3 Datblygu atyniadau twrisiaeth, siopa a hamdden newydd a gwell
A4 Darparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden newydd modern
A5 Cynyddu nifer ac ansawdd y mannau aros i ymwelwyr
A6 Gwella arwyddion, gwybodaeth a marchnata i ymwelwyr
A7 Trefnu digwyddiadau, gweithgareddau a chyfleusterau sy'n denu pobl
A8 Gwella a hyrwyddo nodweddion treftadaeth ac amgylchedd yr ardal.

TUDALEN COSTAU A CHYLLID

7.0 costau a chyllid

7.1 I wireddu disgwyliadau'r strategaeth hon bydd angen llawer iawn o fuddsoddi gan y sectorau cyhoeddus a phreifat dros y cyfnod hyd at 2013. Bydd raid denu'r arian hwnnw o nifer o wahanol ffynonellau. Eisoes gwelwyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn y dref dros y cyfnod 2003 - 2006:-

Buddsoddiad cyfalaf yng Nghaergybi 2003-06
(Ffigyrau bras heb gynnwys cost adeiladu tai a phrynu tir)

Sector Cyhoeddus	£13.6 M
Sector Cymunedol	£ 1.0 M
Masnachol Preifat	£22.4 M
Cyfleustodau Preifat	£30.0 M

CYFANSWM £67.0 M

7.2 **Costau**
Bydd angen paratoi asesiad o gost y strategaeth a'i ymgorffori yn y ddogfen unwaith y cytunir ar y blaenoriaethau a'r prif brosiectau.

7.3 **Cyllid Sector Preifat**
O'r ffynhonnell hon y daw'r rhan fwyaf o fuddsoddiad cyfalaf y dyfodol yng Nghaergybi. Gobeithir, a disgwylir, y bydd lefel y buddsoddiad preifat yn cynyddu'n sylweddol iawn yn y dyfodol oherwydd y gwelliannau isadeiledd a gyflawnwyd gan y sector cyhoeddus a gwell hyder gan fuddsoddwyr yn y dref a'i ffyniant i'r dyfodol.

7.3 **Cyllid Sector Cyhoeddus**
Bydd angen cyfraniad sylweddol o arian cyfalaf a refeniw gan y sector cyhoeddus i wireddu'r strategaeth. Dros amser, dylai hyn arwain at lai o wario ar fudd-daliadau gan y llywodraeth a chynnydd mewn incwm trethiant. Gan y Cynulliad Cenedlaethol y cafwyd y buddsoddiad cyhoeddus mwyaf yng Nghaergybi dros y cyfnod 2003-06 ac mae'n debygol y bydd y patrwm hwn yn parhau. Cymharol ychydig o arian Loteri a ddenwyd a dylid ymdrechu'n galetach i ddenu arian o'r ffynhonnell hon yn y dyfodol.

7.4 **Cyllid Ewropeaidd**
Yr ail gyfrannwr mwyaf yn y cyfnod 2003-06 oedd rhaglen Amcan Un y Gymuned Ewropeaidd. Mae cadarnhau'r rhaglen newydd Cyllid Cydgyfeiriant am y cyfnod 2007-13 yn newyddion rhagorol i Gaergybi, oherwydd dylai ddiwallu llawer o'r gofynion am arian cyhoeddus i wireddu'r strategaeth. Hefyd mae rhaglen newydd Interreg a all ddarparu cyllid ar gyfer prosiectau ar y cyd â phartneriaid yn Iwerddon.

TUDALEN PARTNERIAETH A GWEITHREDU

8.0 **partneriaeth a chyflawni**

8.1 Mae amrywiaeth fawr o gyrff a sefydliadau eisoes yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag adfywio Caergybi. Un o swyddogaethau'r strategaeth hon yw hyrwyddo gweithredu cydlynol ac integredig yn y dref er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid a staff.

8.2 Ffurfiwyd Bwrdd Caergybi Ymlaen fel mecanwaith i ddelio â materion adfywio ar lefel uchel a strategol, yn cynnwys cymeradwyo a monitro gweithrediad y strategaeth adfywio. Mae'r Bwrdd fel arfer yn cwrdd ddwy waith y flwyddyn ac arno gynrychiolwyr dylanwadol o'r sectorau cyhoeddus, cymunedol a phreifat, yn cynnwys yr Aelod Seneddol, yr Aelod Cynulliad a chynghorwyr sir pob ward yng Nghaergybi. Partneriaeth ymgynghorol ydyw yn hytrach nag endid ffurfiol

cyfreithiol neu gyllidol. Gwaith y Bwrdd yw sicrhau a hyrwyddo gweithredu mewn partneriaeth, gosod cyfeiriad strategol ac amlygu a datrys materion adfywio perthnasol.

8.3 Mae grŵp llai, sef Grŵp Strategol Caergybi Ymlaen yn cwrdd yn amlach i ddelio â materion penodol, prosiectau a gofynion rhedeg y prosiect o ddydd i ddydd. Arno mae cynrychiolwyr o'r Siambr Fasnach, Cymunedau'n Gyntaf, Stena, y Cynulliad Cenedlaethol, y Cyngor Sir, Cyngor y Dref a Chadeirydd y Bwrdd.

8.4 Mae nifer o bartneriaethau eraill a grwpiau aml-asiantaethol yn delio â materion adfywio, yn cynnwys timau prosiect o fewn y Cyngor Sir, Is Bwyllgorau Cyngor y Dref a phartneriaethau a fforymau Cymunedau'n Gyntaf. Rhaid cael trefn effeithiol ar gyfer rhwydweithio a rhannu gwybodaeth os am ymdrin ag adfywio mewn ffordd integredig a chydlynol.

8.5 Mae'r profiad ers 2003 yn awgrymu fod rhai materion a themâu adfywio wedi gweld cynnydd da, ond bod eraill heb ddatblygu cystal, gan ddioddef o ddiffyg arweiniad effeithiol. Yn wyneb ei bwysigrwydd, nodwyd y maes sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth fel un sydd angen blaenoriaeth uwch ac arweiniad yn y dyfodol. Mae angen datblygu Themâu a Blaenoriaethau'r Strategaeth ymhellach i ddangos pwy fydd yn gyfrifol am eu gweithredu, a sut i fesur cynnydd. Bydd cefnogaeth ac ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hanfodol.

8.6 Rhaid lledaenu gwybodaeth yn effeithiol am y strategaeth a'i llwyddiannau. Mae codi ymwybyddiaeth am y strategaeth yn ffordd o greu hyder yn nyfodol y dref. Mae gwefan Caergybi Ymlaen www.caergybiymlaen.com yn boblogaidd ac mae modd ei gwella fwy fyth fel cyfrwng cyfathrebu. Defnyddir dulliau cyfathrebu eraill, yn cynnwys y cyfryngau.

8.7 Mae angen adnoddau staff a chyllid i reoli 'n effeithiol strategaeth Caergybi Ymlaen, gweithio mewn partneriaeth a chyflawni'r tasgau cysylltiedig. Rhaid hefyd cael staff ac adnoddau gweithredu i wneud cynnydd effeithiol gyda themâu adfywio penodol.